

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol ar gyfer Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991.

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol ar gyfer Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

6 Gorffennaf 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi datganiad sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion strategol (SPS) ar gyfer Ofwat wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru.

1.2 Rhaid i Ofwat gyflawni'r swyddogaethau hyn, sy'n cynnwys y penderfyniadau prisiau 5 mlynedd yn unol â'r SPS. Mae'r rhain yn cynnwys y disgwyliadau ar gyfer cynlluniau busnes cwmnïau dŵr (methodoleg) sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer blaenoriaethau buddsoddi a lefel gwasanaeth ac yn pennu taliadau dŵr. Bydd y penderfyniad nesaf ar yr adolygiad o brisiau yn 2024 ar gyfer y cyfnod 2025-2030.

1.3 Mae'r offeryn hwn yn creu'r SPS ac yn cymryd lle'r fersiwn gyfredol a gyhoeddwyd yn 2017.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Cefndir Deddfwriaethol

3.1 Mewnosododd Adran 24 o Ddeddf Dŵr 2014 adran 2B yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad (SPS) sy'n nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion strategol ar gyfer Ofwat mewn perthynas â'i swyddogaethau perthnasol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru. Rhaid i Ofwat gyflawni'r swyddogaethau hyn yn unol â'r datganiad a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

3.2 Wrth baratoi'r SPS, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ddyletswyddau statudol Ofwat. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad A yr SPS. Dylai Ofwat ymgorffori'r blaenoriaethau a'r amcanion a nodir yn yr SPS wrth reoleiddio cwmnïau dŵr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

3.3 Mae'r offeryn hwn yn cael ei osod yn unol ag adran 2B(5) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Ofwat yw'r rheoleiddiwr economaidd annibynnol ar gyfer y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr. Mae'r SPS hwn yn nodi disgwyliadau Gweinidogion Cymru i Ofwat ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn dryloyw â rhanddeiliaid yng Nghymru a datblygu dull rheoleiddio sy'n gallu bodloni gofynion penodol Cymru

orau.

4.2 Mae'r SPS yn gosod disgwyliad clir i Ofwat alluogi, herio neu gymell cwmnïau dŵr i gyfrannu at gyflawni polisiau a strategaethau Llywodraeth Cymru cyn belled ag y bo modd ac i weithio gyda Llywodraeth Cymru i barhau i adolygu ei pholisiau a'i fframwaith rheoleiddio yng ngoleuni newidiadau i ddeddfwriaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ac i gyflwyno adroddiad blynyddol sy'n crynhoi'r camau a gymerwyd a'r ystyriaeth a roddir i gyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodir yn yr SPS.

4.3 Mae'r SPS hefyd yn nodi nifer o uchelgeisiau ar gyfer y diwydiant dŵr yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, y Strategaeth Ddŵr i Gymru a blaenoriaethau a deddfwriaeth benodol Llywodraeth Cymru. Daw'r rhain o dan 5 thema allweddol – Argyfyngau Hinsawdd a Natur, yr Amgylchedd, Cydnerthedd, Iechyd Asedau a Chwsmeriaid a Chymunedau.

4.4 Mae'r SPS hwn yn cymryd lle'r fersiwn a gyhoeddwyd yn 2017.

5. Ymgynghori

5.1 Dyletswydd i ymgynghori

Rhwng mis Mehefin 2021 a mis Chwefror 2022, yn unol ag adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol

- Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr
- Y cwmnïau dŵr y mae'n debygol y bydd y canllawiau arfaethedig yn effeithio arnynt. Y rhain oedd Hafren Dyfrdwy, Dŵr Cymru ac Albion Eco
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed
- Asiantaeth yr Amgylchedd a Llywodraeth y DU
- Ofwat
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

5.2 Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymgynghoreion gymryd rhan mewn gweithdai i ystyried themâu a chynnwys yr SPS. Cyd-ddatblygodd y rhanddeiliaid nifer o uchelgeisiau ar gyfer y diwydiant dŵr yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, y Strategaeth Ddŵr i Gymru a blaenoriaethau a deddfwriaeth benodol Llywodraeth Cymru.

5.3 Cynhaliwyd trafodaethau unigol gyda'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid, a dosbarthwyd drafftiau o'r SPS rhwng mis Medi 2021 a mis Chwefror 2022 i'w hystyried ymhellach.

5.4 Roedd yr ymgynghoreion yn gefnogol ar y cyfan i'r SPS drafft.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Nid yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer yr offeryn hwn gan ei fod yn nodi deddfwriaeth bresennol a pholisi'r Llywodraeth ac nid yw'n gosod unrhyw ddyletswyddau na chostau newydd ar Lywodraeth Cymru na thrydydd partïon. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.